**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw – Gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

**Mai 2014**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad a baratowyd gan y pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae canfyddiadau'r pwyllgor, ynghyd â'i argymhelliad allweddol, a'i gasgliad, fwy neu lai yn gyson â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru a nodir yn *Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol* a'i hymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth ar ffurf Bil Ansawdd y GIG a fydd yn symleiddio ac yn atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith. Bydd y gwaith cwmpasu ar gyfer cynigion deddfwriaethol yn y dyfodol yn ystyried y swyddogaethau a'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer AGIC. Bydd y materion y mae'r pwyllgor wedi'u codi sy'n ategu ei argymhelliad yn helpu i roi ffocws a chyfeiriad o safbwynt sicrhau bod ein harolygiaethau a'n rheoleiddwyr yn fwy effeithiol drwy gydweithio a rolau eglur.

Bydd yr adroddiad yn helpu hefyd gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod gan AGIC fynediad gwell at wybodaeth ac o ran sicrhau bod rhannu gwybodaeth yn dod yn drefniant mwy rhagweithiol rhwng cyrff y GIG, gyda'r bwriad o wella trefniadau cydweithio ac arolygu mewn modd cydgysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen gwella rôl AGIC i roi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i ddinasyddion Cymru ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd drwy egluro ei chyfundrefn arolygu, cyflwyno adroddiadau amserol a gwell mynediad at wybodaeth.

Bydd y modelau gwasanaeth newydd sydd ar droed a rôl rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal integredig yn gofyn am ddisgyblaeth gadarn o ran gweithio cydgysylltiedig. Mae'r Papur Gwyn ar gyfer dyfodol rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru[i], yn nodi cyfeiriad strategol sy'n gofyn am gydweithio agosach gan y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (yn cynnwys y trydydd sector), a dull newydd o ddarparu ar sail canlyniadau i ddinasyddion, yn hytrach na ffiniau sefydliadol. Mae ein hymateb ni i adroddiad y pwyllgor yn amlygu'r gweithgareddau, y mentrau a'r rhaglenni sydd eisoes yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith i wella'r broses o reoleiddio ac arolygu'r GIG yng Nghymru.

Mae ymateb manwl, gyda mewnbwn gan AGIC i argymhelliad a materion yr adroddiad wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol.

**Prif argymhelliad:**
**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad sylfaenol o AGIC i ddiwygio, datblygu a gwella ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu. Dylai ystyriaeth o'r angen i ddiwygio sylfaen statudol AGIC fod yn rhan o'r adolygiad hwn, yn ogystal â'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Dylid cynnal yr adolygiad ar frys a dylai arwain at amlinelliad clir o amcanion a diben craidd AGIC.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen adolygu'r sefyllfa statudol bresennol sy'n cefnogi swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu ym maes gofal.

Mae Llywodraeth Cymru yn cwmpasu polisi ar gyfer cynigion deddfwriaethol y dyfodol i symleiddio ac atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith ynglŷn ag ansawdd gofal iechyd. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n tanseilio rolau a chyfrifoldebau AGIC. Mae sicrhau'r sylfaen iawn ar gyfer rheoleiddio ac arolygu'n gofyn am sylfaen dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth o'r swyddogaethau. Mae hefyd yn hanfodol bod yr amodau iawn yn cael eu creu fel bod adolygiad sylfaenol yn cael yr effaith fwyaf. Bydd adolygiad o'r math hwn yn broses hir a rhaid caniatáu amser ar gyfer hynny. Felly, byddai Llywodraeth Cymru'n ceisio cyhoeddi Papur Gwyrdd a fydd yn amlinellu cynigion ar gyfer Bil Ansawdd y GIG cyn etholiad nesaf y Cynulliad.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn bod angen rhoi'r cyfle i AGIC sefydlu ei hun fel sefydliad yn dilyn cyfnod o newid cyn bod modd adolygu ei swyddogaethau. Mae AGIC wrthi'n recriwtio er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu hyd yr eithaf erbyn haf 2014, o safbwynt capasiti. Mae hefyd yn datblygu perthnasau gwell ag arolygiaethau ar draws gweinyddiaethau'r DU, gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr, yr Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd yn Ngogledd Iwerddon a Gwella Gofal Iechyd yn yr Alban. Bydd hyn yn sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ac yn dylanwadu ar ffyrdd o weithio AGIC yn y dyfodol, wedi'i seilio ar wersi a ddysgwyd gan sefydliadau tebyg.

Mae camau gweithredu a ffactorau eraill a allai rwystro adolygiad brys, er enghraifft:

- Bydd gofyn bod *Trefniadau Cynyddu Camau Gweithredu ac Ymyrraeth ar gyfer ymdrin â materion difrifol sy'n wynebu GIG Cymru*[ii] a ddaeth i rym yn Ebrill 2014, yn cael amser i sefydlu a bydd yn ddiau yn dylanwadu ar waith ar draws cyrff gwahanol ac yn dylanwadu ar eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol.
- Os bydd y Cynulliad yn ei basio, ni fydd y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cael cydsyniad brenhinol tan fis Ionawr 2016 a bydd yn effeithio ar fodelau gwasanaeth integredig.

At hyn, mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "adolygu'r fframwaith ar gyfer craffu'n allanol ar wasanaethau cyhoeddus a gwaith ein harchwilwyr, ein harolygwyr a'n rheoleiddwyr" yn ategu hyn. Mae'r adolygiad o Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio yng Nghymru wedi cychwyn, ac mae'n cynnwys tri cham, a ddechreuodd gydag ymgynghoriad i gefnogi cam un, er mwyn cytuno ar egwyddorion Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio yng Nghymru. Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cafodd adroddiad Comisiwn Williams ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus ei gyhoeddi. Fel canlyniad, penderfynwyd 'oedi ac adolygu', cyn cychwyn cam dai. Bydd 'oedi ac adolygu' yn caniatáu mwy o amser i ystyried canfyddiadau cam un, a pha mor gyson y maent ag argymhellion y Comisiwn wrth inni symud ymlaen i gam dai. Bydd hefyd yn sicrhau bod rhaglenni gwaith perthnasol a chysylltiedig ym maes archwilio, arolygu a rheoleiddio yn fwy cyson. Bydd casgliadau'r adroddiad hwn yn helpu i lywio trefniadau gwaith y dyfodol ar draws sefydliadau, yn cynnwys AGIC, gan gefnogi gwelliannau drwy gydweithio, canolbwyntio'n fwy ar y dinesydd, a gweithio mewn modd tryloyw.

Yn ystod yr ymchwiliad, crybwyllodd y pwyllgor yr opsiwn o ddefnyddio dull, fel llythyr cylch gwaith blynyddol, i ffurfioli annibyniaeth weithredol AGIC. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pennu trefniant tebyg mewn trafodaeth â phrif weithredwr AGIC i sicrhau nad yw ei hannibyniaeth weithredol yn cael ei rhwystro o gwbl. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith nawr. Bydd angen cyflwyno trefniadau o'r fath yn ofalus, er mwyn sicrhau bod AGIC yn annibynnol, a bod y cyhoedd yn gallu gweld ei bod yn annibynnol. Fodd bynnag, derbyniwn ei bod hefyd yn bwysig i Weinidogion gael cyfle i fod yn glir am yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan yr arolygiaeth.

Mae AGIC ei hun yn cydnabod y byddai'n werthfawr ac yn gyfle defnyddiol i ystyried sut mae wedi gwella a gofynnodd i Archwilydd Cyffredinol Cymru a fyddai'n ystyried, fel rhan o'i raglen o astudiaethau Gwerth am Arian, gynnal adolygiad annibynnol o ddarparu yn erbyn cynlluniau AGIC a effeithiolrwydd cyffredinol. Os bydd yn cytuno â'r cynnig hwn, ei gyfrifoldeb ef fydd pennu amseriad mwyaf priodol ar gyfer adolygiad o'r fath.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nifer o brif faterion y bydd AGIC, gan fwyaf, yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae AGIC wedi rhoi ymateb i bob un o'r rhain a chynigiwn farn y Llywodraeth ar hyn.

**Prif fater 1 – Darparu diben craidd AGIC:**
**Cred y Pwyllgor y dylai AGIC gyhoeddi rhaglen sy'n amlinellu ei gweithgarwch rheoleiddio ac arolygu, gan gynnwys gwneud yn gyhoeddus y manylion am ba mor aml y mae'n bwriadu arolygu'r darparwyr gofal iechyd gwahanol a'i gallu i gyflawni ei rhwymedigaethau. Dylai AGIC fod yn glir ynghylch y gyfundrefn**

**arolygu a ddisgwylir gan y cyhoedd a sut y bydd yn sicrhau'r cyhoedd bod gwasanaethau'n ddiogel ac o safon.**

Ymateb AGIC

*Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun gweithredol ar gyfer 2014-15, sy'n nodi'n benodol ein rhaglen waith a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod. Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr adborth gan ein rhanddeiliaid, yn cynnwys y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ddiweddar o ran meithrin ein capasiti a'n gallu. Mae'r cynllun yn nodi dull ffres o ddarparu ein rhaglenni arolygu craidd a fydd yn cynyddu ein presenoldeb a'n hamlygrwydd yn y GIG yn sylweddol ac yn ein galluogi i lunio barn ehangach ar y safonau o ofal a ddarperir.*

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cynllun gweithredol AGIC ar gyfer 2014-15 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth yn ymateb i sawl un o'r materion a godwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor ac yn ei adroddiad. Yn arbennig, ymrwymiad i gynyddu faint o weithgarwch arolygu a gynhelir a bod yn fwy amlwg o safbwynt sicrhau'r cyhoedd. Mae hyn yn gyson â'r ffaith bod ei gweithgarwch wedi cynyddu eleni, o safbwynt capasiti.

**Prif fater 2 – Defnyddio gwybodaeth yn well:**
**Ym marn y Pwyllgor:**

1) **Dylai AGIC wella'r ffordd y mae'n cael gafael ar ddealltwriaeth a gwybodaeth ac yn ymdrin â hynny, gan sicrhau bod ganddi fynediad at wybodaeth amserol gan yr holl gyrff perthnasol.**
2) **Dylai AGIC egluro'r ystod o ddata y mae'n ei ddefnyddio i geisio canfod patrymau sy'n nodi neu'n rhagweld ansawdd gofal gwael i gleifion, gan wneud y prosesau sydd ar waith i nodi achosion sydd o bryder difrifol neu fethiannau systematig ac ymateb iddynt yn gyflym, yn dryloyw.**
3) **Dylai Cynghorau Iechyd Cymuned fod yn fwy rhagweithiol wrth rannu eu gwybodaeth ag AGIC fel y gellir cyflawni'r rôl sylfaenol sydd ganddi i'w chwarae wrth gefnogi'r gyfundrefn arolygu. Bydd hyn yn gwella cydweithio, yn sicrhau y caiff arolygiadau eu cydgysylltu'n well, ac yn galluogi AGIC i ganolbwyntio gweithgarwch ar y meysydd sydd â'r risg uchaf.**

Ymateb AGIC

1) *Mae ein cynllun gweithredol ar gyfer 2014-15 yn nodi targedau i adnewyddu ein memoranda cyd-ddealltwriaeth(MC-dd) a'r modd y byddwn yn ymdrin â dealltwriaeth. Yn arbennig, byddwn yn gwerthuso sut y byddwn yn asesu risg.*
2) *Byddwn yn cydweithio'n fwy â chyrff eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o ran y modd y byddwn yn ymateb i bryderon, yn arbennig drwy weithgareddau gorfodi a rhoi Trefniadau Cynyddu Camau Gweithredu ac Ymyrraeth GIG Cymru ar waith, y cytunwyd arnynt yn ddiweddar â Llywodraeth Cymru.*

3) *Yn ystod 2014-15, byddwn yn*
   a. *rhoi ein protocol gweithredu ar waith gyda Chynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru i rannu tystiolaeth yn well i nodi meysydd sy'n peri problem ar gam cynharach, gan sicrhau bod profiadau a safbwyntiau cleifion yn ein helpu i lywio'r broses asesu risg.*
   b. *adolygu ein memoranda cyd-ddealltwriaeth, ein protocolau gweithredu a'n protocolau rhannugGwybodaeth er mwyn sicrhau cyflawnrwydd, priodoldeb a chysondeb*
   c. *sicrhau bod yr holl femoranda cyd-ddealltwriaeth a'r protocolau cysylltiedig yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.*

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod mynediad at wybodaeth drwy rannu data'n well a defnyddio data'n briodol yn ffactor allweddol i gydweithio gwell ar draws arolygiaethau ac mae cynllun gweithredol AGIC yn ategu'r ymagwedd hon.

Wrth ymateb i adroddiad y pwyllgor, mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi amlinellu nifer o welliannau sy'n ategu'r ymagwedd hon, yn cynnwys dull rheolaidd o rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth i nodi tueddiadau. Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi rhoi gwybodaeth i AGIC o'u cronfa ddata i gefnogi eu rhaglen arolygu barhaus. Mae enghreifftiau eraill sy'n dangos ymrwymiad parhaus, er enghraifft:

- Pennu un man cyswllt staff yn AGIC a'r Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn rheoli datblygiad y protocol gweithredu.
- Cynghorau Iechyd Cymuned yn cyfrannu'n weithgar gydag AGIC a rhanddeiliaid eraill at y broses o gynllunio uwchgynadleddau gofal iechyd (blynyddol) a datblygu cynadleddau llai o faint yn fwy rheolaidd.
- Prif amcan o bennu darpariaethau'r protocol gweithredu o fewn gwaith rheolaidd yn y dyfodol, yn hytrach na nodi 'atebion sydyn'. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys craffu'n agosach ar sut mae'r concordat yn manteisio i'r eithaf ar weithgareddau arolygu AGIC a Chynghorau Iechyd Cymuned ac yn osgoi dyblygu.

Mae'n amlwg bod ymagwedd ragweithiol a chynaliadwy yn cael ei sefydlu rhwng AGIC a'r Cynghorau Iechyd Cymuned a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i annog hyn.

**Prif fater 3 – Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd:**
**Ym marn y pwyllgor, mae angen i AGIC feithrin ymdeimlad newydd o ddiben, a deall ei bod yn bodoli i sicrhau bod darparwyr yn bodloni safonau gofynnol ac ymyrryd pan nad yw hyn yn digwydd. Mae'n cymryd gormod o amser i gyhoeddi adroddiadau arolygu, ac ni chânt eu cyfleu'n effeithiol i'r cyhoedd. Mae angen i AGIC roi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd fod ganddi gynllun**

**trefnus i sicrhau y caiff darparwyr gofal iechyd eu harolygu'n briodol a'u dwyn i gyfrif. I gyflawni hyn, mae angen i AGIC wneud y canlynol:**

1) **cyhoeddi ei hadroddiadau arolygu yn brydlon;**
2) **cynyddu a gwella hygyrchedd y wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi i'r cyhoedd, gan ei gwneud yn glir sut y mae'n bwriadu dilyn ei hargymhellion a'r camau y bydd yn eu cymryd os na chaiff cynnydd ei wneud; a**
3) **trawsffurfio ei gwefan fel ei bod yn hawdd ei defnyddio, yn dryloyw ac yn borth gwybodaeth cynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r adroddiadau y mae wedi'u llunio a'r gwaith sydd wedi'i wneud.**

Ymateb AGIC

1) *Yn 2014-15 bydd gwelliannau pellach i'n systemau ar gyfer cynllunio a rheoli perfformiad. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn parhau i ddatblygu safonau penodol er mwyn asesu ein perfformiad yn eu herbyn.*
2) *Rydym wedi pennu safonau penodol ar gyfer cyflwyno adroddiadau a fydd yn arwain at roi adborth ar unwaith ar ganfyddiadau i'r cyrff a arolygwyd; cyhoeddi adroddiadau drafft o fewn tri mis a chyhoeddi adroddiad ar ein gwefan o fewn tri mis*.
3) *Caiff gwefan newydd ei lansio ym mis Ebrill 2014 a fydd yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i wybodaeth a byddwn yn parhau i wella'r cynnwys drwy gydol y flwyddyn.*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod AGIC yn rhan o'r system sicrhau'r cyhoedd ac mae'n cytuno â barn y Pwyllgor bod angen meithrin ymdeimlad newydd o ddiben mewn perthynas â chyhoeddi adroddiadau arolygu yn amserol a pha mor hawdd yw cael gafael ar y fath adroddiadau. Yn ystod yr ymchwiliad, cydnabu AGIC fod angen gwella'r ffordd y mae'n cyfleu ei swyddogaethau, yn cynnwys yr hyn y mae'n ei ganfod yn ystod arolygiadau. Cytunodd fod angen i bob cam o'r broses fod yn glir o ran yr hyn a wna i dawelu ei meddwl ei hun am ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymrwymiad AGIC i wella yn y maes hwn.

**Prif fater 4 - Creu sefydliad uchel ei berfformiad:**
**Yn 2011, cynhaliodd AGIC adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan ei hadolygwyr allanol.**

1) **Dylai AGIC gyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad hwn er mwyn rhoi sicrwydd fod gan y sefydliad y cydbwysedd cywir rhwng y defnydd o adolygwyr allanol ac arolygwyr clinigol.**
2) **Dylai AGIC wneud ei dull o benodi a defnyddio adolygwyr allanol yn glir a nodi ei hanghenion ar gyfer y dyfodol yn glir.**

Ymateb AGIC

1) *Bydd adolygiad 2011 yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.*

2) *Yn 2014 dechreuom raglen recriwtio lwyddiannus. Mae ein hymagwedd at benodi a defnyddio adolygwyr allanol wedi ei nodi'n glir ar ein gwefan.*

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn y pwyllgor fod angen i AGIC gadw craidd canolog o staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol i gyfarwyddo a rheoli eu rhaglen waith heriol. Yn ystod yr ymchwiliad, nododd AGIC sut mae'n cydbwyso'r defnydd o adolygwyr lleyg, adolygwyr sy'n gymheiriaid ac adolygwyr allanol, gan roi sicrwydd bod yr adolygwyr wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu sicrwydd AGIC y bydd ymarfer recriwtio yn arwain at gynyddu'r gweithgarwch, o safbwynt capasiti, er mwyn cyflawni rhaglen waith y gellir ei fforddio o fewn y gyllideb sydd wedi'i dyrannu iddi. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r ffaith ei bod yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar adnoddau.

**Prif fater 5 - Sicrhau dilysrwydd:**
**Er bod y pwyllgor yn cefnogi penderfyniad AGIC i symud oddi wrth system asesu sy'n dibynnu'n fawr ar ddilysu, credwn er hynny na ddylid dibynnu'n ormodol ar hunanasesiad - mae'n rhaid cael lefel briodol o ddilysu o hyd. Mae angen i AGIC roi eglurhad o ba ddilysrwydd allanol a wneir i roi sicrwydd fod hunanasesiad a wneir gan sefydliad gofal iechyd yn ddigon cadarn, ac er mwyn galluogi cyrff iechyd i feincnodi eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd .**

Ymateb AGIC
*Byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i ddilysu a darparu adborth i sefydliadau'r GIG ar eu hunanasesiad o berfformiad lefel gorfforaethol yn erbyn y safonau gan ddefnyddio'r modiwl hunan-asesu llywodraethu ac atebolrwydd.*

Mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru yn *Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol* i ddiweddaru'r safonau sylfaenol o ran gofal ac ymgorffori'r gofynion sylfaenol hyn o fewn fframwaith *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*[iii] wedi'i ddiweddaru. Bydd ymarfer cwmpasu ar gyfer cynigion deddfwriaethol y dyfodol yn cefnogi cyfres o safonau wedi'u diweddaru a chaiff y rôl y bydd AGIC yn ei chwarae ei hystyried wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau.

**Prif fater 6 - Iechyd a gofal cymdeithasol integredig:**
**Credwn y dylai'r adolygiad yr ydym wedi argymell, y dylai Llywodraeth Cymru ei gynnal o swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu AGIC, ystyried yn benodol ei rôl mewn perthynas â modelau gofal iechyd newydd. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i:**

1) **sut y mae gwaith AGIC, yng nghyd-destun modelau newydd o ofal integredig, yn gweithio ar y cyd â chyrff rheoleiddio ac arolygu eraill a**
2) **beth y dylai ei rôl fod o ran gofal sylfaenol.**

Ymateb AGIC

1) *Mae ein cynllun gweithredol yn disgrifio ein hymagwedd gydweithredol sy'n cydnabod y rôl benodol rydym yn ei chwarae yn y fframwaith sicrhau ehangach ar gyfer darparwyr gofal iechyd yng Nghymru a'i nod yw sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda chyrff archwilio, arolygu, rheoleiddio a chraffu eraill er mwyn cyflawni ein swyddogaethau.*

2) *Rydym wedi nodi ein hymrwymiad i ofal sylfaenol yn y cynllun gweithredol. Yn benodol drwy ddatblygu rhaglenni arolygu newydd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau deintyddol ac ymarfer cyffredinol.*

Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar ffurf Bil Ansawdd y Gig yn symleiddio ac yn atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith. Nod yr ymarfer cwmpasu i gefnogi datblygiad deddfwriaeth fydd adolygu'r swyddogaethau a'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer AGIC.

---

[i] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/support/?skip=l&lang=cyn
[ii] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/escalation/?skip=1&lang=cy
[iii] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/letters/2010/healthservicesstandards/?skip=1&lang=cy